

PWYLLGOR PENODIADAU

Cofnodion y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd ar 29 Ebrill 2021

YN BRESENNOL:	Cynghorydd Ieuan Williams (Cadeirydd) Cynghorydd Bob Parry OBE FRAgS (Is-gadeirydd) Cynghorwyr R Dew, Glyn Haynes, T LI Hughes MBE, K P Hughes, Vaughan Hughes a Llinos Medi Huws
WRTH LAW:	Prif Weithredwr, Dirprwy Brif Weithredwr Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid Rheolwr Adnoddau Dynol (CW) Swyddog Pwyllgor (MEH).
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorwyr R Meirion Jones
HEFYD YN BRESENNOL	Dim

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Dim.

2 CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD:-

“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

3 APWYNTIO STAFF

Pennaeth Gwasanaethau Oedolion

Adroddodd y Prif Weithredwr, yn unol ag argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau ar 17 Mawrth 2021 bod y swydd Pennaeth Gwasanaethau Oedolion wedi ei hysbysebu ar 26 Mawrth 2021 tan 19 Ebrill 2021.

Dywedodd y Prif Weithredwr, yn unol ag arferion recriwtio safonol, bod rhestr fer annibynnol wedi ei ffurfio yn seiliedig ar y wybodaeth a oedd wedi'i chynnwys yn y ceisiadau ac fe gafodd ei argymhell bod yr ymgeiswyr sy'n cwrrd â'r trothwy yn cael eu cyfweld. Cafodd ei argymhell bod y Pwyllgor penodiadau yn dilyn yr un broses ag sydd wedi'i dilyn â nifer o benodiadau ar lefel uwch sef proses tri cham sef:-

- Cyfweiliad allanol â Gatenby Sanderson yn seiliedig ar broses o brofion seicometrig ar gyfer yr holl ymgeiswyr ar y rhestr fer;
- Cyfweiliad proffesiynol i'w gynnal gan y Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Proffesiwn AD fel ffordd o gadarnhau cywirdeb y ffurflen gais;

- Cyfweiliad gyda'r Pwyllgor Penodiadau er mwyn gwneud penderfyniad ar ba ymgeisydd, os unrhyw un, a ddewisir yn dilyn ystyried y ddau gam blaenorol a gyflwynir mewn adroddiad cyn y cyfweiliad ffurfiol â'r Pwyllgor.

PENDERFYNWYD bod argymhelliad y Prif Weithredwr mewn perthynas â llunio rhestr fer a'r broses tri cham yn cael ei gefnogi'n unfrydol fel y nodwyd yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar y mater.

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS
CADEIRYDD**